cyntaf y *'San Francisco Municipal Music League'*. Côr o ddau gant o enethod ysgol uwchradd oedd ganddo yno. Meddyliodd Festyn, yn 1922, am ysgogi awdurdod lleol San Mateo i wario ar safle i gynnal gŵyl gerddorol yn yr awyr agored. Soniwyd am amcangyfrif o $80,000 ar y prosiect. Yn anffodus, wn i ddim a benderfynwyd o blaid y gwario. P'run bynnag, erbyn 1922 yr oedd syniad newydd ym mhen Festyn Davies. Yr oedd wedi clywed a gweld mwy nag un côr meibion o Gymru yn teithio yn yr Unol Daleithiau. Buasai Festyn droeon ar ymweliad â Thrawsfynydd er pan ymfudodd ac yr oedd yn gwybod cryn dipyn am yr hyn a ddigwyddai yn gerddorol yn yr 'Hen Wlad'. Cafodd Festyn weledigaeth. Gwelai ei hun yn mynd â pharti meibion o Gymru i America.

Nid parti o un ardal a fyddai ei barti ef, ond parti o gantorion dethol o Gymru gyfan. Ni fyddai'r aelodau mewn crys gwyn a siwt ddu chwaith. Ni wnâi'r tro i'w gantorion gymryd wythnosau i ddysgu eu darnau. Ni fyddai Festyn yn fodlon ar gael cantorion nerfus, yn cuddio y naill y tu ôl i'r llall ar lwyfan.

Fel arfer, yr oedd yn anelu'n uchel. Sut y gallai obeithio am gantorion corawl yng Nghymru a fyddai'n cyrraedd y gofynion? Roedd yr ateb yn syml: cael gafael ar unawdwyr o safon uchel — yn wŷr proffesiynol, i raddau. Efallai i Festyn ymresymu fel hyn: mae hi'n amser caled ym Mhrydain yn y dauddegau 'ma. Bydd cantorion o safon reit uchel yn ei chael yn anodd i gael dau ben llinyn ynghyd.

Reit, meddai Festyn, ac i ffwrdd am Gymru ag ef. Yr oedd ganddo gychwyn hawdd, David Morris, Trawsfynydd, gŵr ei chwaer, Kate. Nid dewisiad 'gwaed yn dewach na dŵr' oedd David Morris. Roedd Dafydd yn unawdydd tenor ardderchog ac wedi bod yn Canada efo ail daith Côr y Moelwyn yn 1911-12. Doedd o ddim mor ifanc ag yr hoffai Festyn iddo fod, ond camgymeriad mawr a fyddai i Festyn beidio â'i ddewis.

Wrth fynd o amgylch Cymru cafodd Festyn aelodau a oedd yn byw gannoedd o filltiroedd oddi wrth ei gilydd: Richard Macklin, Caernarfon; Jack Newbury, Abertawe; Watkin Edwards, Rhosllannerchrugog; Tom Lloyd, Penbedw; Tom John, Tylorstown; Jabez Trevor, Treuddyn; Sam Lazarus, Treherbert; Evan Gwilym Jones (un o 'Stiniog yn gweithio yn Wrecsam); Jack Lewis, Tonyrefail; Wilfred Jones, Rhosllannerchrugog; Harri Williams, Bethesda; Ernest Williams, Treffynnon; Owen R. Owen a Bob Williams, Trefriw; John Eifion Thomas, Tremadog, ac yn y blaen.

Roedd yn rhaid cael cyfeilydd campus a'i ddewis oedd George Lloyd Roberts, Rhiwlas, Bangor. Cofier nad ymunodd pawb a enwyd hyd yn hyn â pharti gwreiddiol Festyn Davies. Fe adawodd rhai yn gynnar ac yr oedd llawer o gantorion eraill i ddod. Cymerodd Festyn ei ganolfan ym Mangor a chychwynnwyd ar yr ymarferiadau yn 1926. Gallesid meddwl y byddai cael unawdwyr i doddi'n lleisiol i'w gilydd yn anodd ond nid felly y bu. Cafodd pob aelod gryn nifer o ddarnau i'w dysgu'n gyflym ac yn berffaith. Ni fu hynny'n broblem chwaith. Yr oedd Festyn yn ddisgyblwr llym — ofnadwy o lym a dweud y gwir. Efallai bod hynny wedi creu problemau. Mynnai Festyn drefnu sesiynau ymarfer corff yn aml, ac yn 56 oed byddai ef ei hun yn gweithio yr un mor galed â neb. Gosodwyd rheolau caeth ynglŷn ag ymwneud â diod feddwol. Ni chaniateid munud o ras mewn prydlondeb. Mewn cyngherddau deuai'r côr i'w safle mewn dull milwrol bron. Yr oedd gosodiad y côr ar y llwyfan yn hollol newydd; bron na ellid dweud bod y cantorion mewn gosodiad a awgrymai ymlacio. I dynnu lluniau, gosodid yr aelodau yn grwpiau — anffurfiol bron. Ni allai Festyn oddef gweld côr fel rhesi o bengwyniaid, ac y mae hynny yn dod â ni at wisg hollol anarferol y côr. Gwisgoedd lliwgar, traddodiadol oedd ganddynt — tebyg i steil operâu Mozart, dyweder. Ac yr oedd Festyn mewn clos pen glin o felfed, côt hardd, a gwisgai *monocle*. Yr oedd popeth ynglŷn â Festyn Davies yn anarferol. Ond yr oedd ei ddawn fel arweinydd yn ddigamsyniol.

Cymerodd rhyfel byd i chwalu ei gôr yn derfynol yn 1939. Erbyn hynny roedd y *Welsh Imperials* wedi bod yn America tua chwe gwaith — nid am fis neu ddau, ond am flwyddyn ar y tro.

Bu newid mawr ymysg yr aelodau dros y blynyddoedd. Ymysg y rhai a fu'n aelodau hwyaf yr oedd Watkin Edwards ac Evan Wrench. Cyfeilwyr iddo ar ôl George Roberts oedd Norman Evans, Wilfred Atherton ac Eryl Charles.

Nid aeth y côr i America ar unwaith. Yn wir, roedd hi'n 1928 ar y daith dramor gyntaf yn cychwyn a bu'r oediad bron â bod yn ddigon i chwalu'r côr. 'Rhaid inni fod wedi gwneud enw i ni'n hunain cyn y cawn ein derbyn yn America,' oedd esgus Festyn i'w aelodau byr eu hamynedd. Roedd o byth a beunydd yn dweud mai côr i fynd i America oedd ganddo.

Dim ond Watkin Edwards a fu ar bob un o deithiau yr *Imperials* yn America. Yr oedd teyrngarwch Watkin i Festyn Davies yn rhyfeddol. Ef a fyddai'n ceisio tawelu'r hogiau pan fyddai cwynion ganddynt. Efallai, yma, y dylwn restru'r enwau na chyfeiriwyd atynt ymysg aelodau'r côr: Hywel G. Williams, Abergele; Henryd Jones, Conwy; Robert T. Williams, Llandudno; Elwyn Edwards (mab Moses Edwards, Côr Plant Pentre Broughton); R. J. Williams, Rhostryfan; John Weyman Williams, Conwy; Arfor Roberts, Bethesda; Richie Griffiths, Y Bermo; Evie Jones, Cwmparc; David Lloyd, Mochdre; Eddie Williams, Penrhiwceibr; Melville Davies, Llanelli; Tom Bevan, Ferndale; Vivian Aubrey, Rhondda (cyfeilydd yn ystod salwch Atherton); Emlyn Morley, Hirwaun; Wilfred O. Jones, Caerdydd; Ieuan Bowen, Tonpentre; Emlyn Jones, Llanelli; Ivor Evans, Abertawe.

Chwalodd y côr yn 1939 ac aeth pawb i'w ffordd ei hun. Yr oedd dwy ferch Festyn yn ôl yn America erbyn hyn ac fe setlodd Festyn yn Nhrawsfynydd. Cadwodd siwtiau'r côr yn ofalus. Nid er mwyn y gorffennol ond er mwyn y dyfodol. Bron yn 70 oed bwriadai gael grŵp o hogiau Trawsfynydd i wisgo'r siwtiau. Cafodd nifer dda ynghyd a rhoes yr enw *Welsh Imperial Singers* arnynt. Gwyddai nad oedd cystal deunydd ganddo y tro hwn ond rhoes yr un hyfforddiant i'r côr lleol ag a roes i'r cantorion proffesiynol. Cafodd Maggie Jones, Cemlyn, Trawsfynydd yn gyfeilydd ac yn wir cafodd y côr newydd rai cyngherddau cyn i gyfyngiadau trafaelio a dogni petrol roi caead ar y piser hwnnw. Peth arall a wnaeth Festyn oedd cadw dosbarth ysgol nos cerddorol. Fel arall doedd gan Festyn ddim ond pysgota i'w ddifyrru ei hun.

Yr hanes olaf amdano oedd iddo gael ei ailethol yn Warden yn yr eglwys leol. Bu farw yn 1944 yn 73 oed. Daeth ei gôr lleol i'w angladd a chanu o dan arweiniad W. J. Roberts, Cae Glas. Daearwyd Festyn gyda'i chwaer, Kate, a'i frawd yng nghyfraith, David Morris. Y mae'r bedd hwnnw wedi cloi ar dalentau cyfoethog.

Os oes nefoedd i fod, ac os bydd yno ganu, bydd Kate, Dafydd a Festyn wrthi yn arw — a Festyn yn arwain reit siŵr.

O.N.: Dyma'r cantorion o Drawsfynydd a fu'n canu o dan yr enw *Welsh Imperial Singers* yn ystod blynyddoedd cynnar yr Ail Ryfel Byd: William John Roberts, Maelgwyn Vaughan Davies, Alec Morris, Gwilym Haydn Williams, Emyr Lewis, William Jones, Hywel Idris Williams, Islwyn Lewis, John Jones, Harold Rees, Gwilym Meirion Jones, Bob Owen, Oswald Williams, Caradog Roberts, Robert Griffith, Hugh Evans, Ted Rowlands, Moses H. Hughes, Robert T. Jones, Hugh Ellis Owen, David Williams ac Evie Williams.


# AR WERTH

***The Text of the Mabinogion and other Welsh Tales from the Red Book of Hergest;*** a ***The Text of the Bruts . . .;*** J. Rhŷs a J. Gwenogvryn Evans. Dwy gyfrol. Rhydychen, 1887 a 1889. Pris: £60. **Cysylltwch â Iestyn Daniel ar (01970) 626717.**

* * * *

***Welsh Melodies . . .;*** John Thomas, Llundain, Addison, Hillier a Lucas, 1862. Dwy gyfrol mewn cyflwr da. Llofnod John Jones 'Talhaiarn' wedi arwyddo'r ddwy gyfrol. Pris: £40.
**Mr a Mrs R. Jackson, Plas Iolyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DS. Ffôn: (01492) 641458.**

* * * *

***Lampeter: George Eyre Evnas.*** Aberystwyth, 1905. Prin iawn. Pris: £55.
***The History and Antiquities of the Parish of Newchurch (Carmarthenshire);*** T. M. Morgan, Caerfyrddin, 1910. Pris: £20.
***Knighton and District:*** W. Hatfield. Henffordd, 1947. Pris: £35.
***Cwmsêl a Chefn Sidan:*** T. Beynon, Caernarfon, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1946. Pris: £5.
***Ardal y Cewri: Enwogion Plwyf Llangybi a'r Cylch . . .:*** R. Evans (Cybi), Pwllheli. Richard Jones, 1907. Pris: £5.
***Tregaron Historical and Antiquarian:*** D. C. Rees. Llandysul, J. D. Lewis, 1936. Prin iawn. Pris: £50.
**John Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6AL.**

* * * *

***Hen gopïau o Y Faner:*** Mawrth 1977 — Rhagfyr 1978 (Gol. Geraint Bowen). 1979-Mai 1982 (Gol. Jennie Eirian Davies). Mehefin 1982 — 1989 (Gol. Hafina Clwyd). Pris: rhodd i Gronfa *Y Casglwr*.
**John Roberts, Erw Wen, Y Groeslon, Caernarfon LL54 7TB. Ffôn: (01286) 830505.**

* * * *

***Y Bywgraffiadur Cymreig.*** Copi glân ond gydag ychydig o frychni ar y clawr. Pris £40.
**Huw Williams, Eirianfa, 158 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd. Ffôn: (01248) 362752.**

* * * *

***Caneuon Ceiriog*** (Gwasg Gregynog, 1925); ***Geiriadur Thomas Richards*** (1753); ***A Walk Through Wales,*** R. Warner (1799); ***Welsh Botanology,*** Hugh Davies (1813); dau gopi o ***Beibl Peter Williams,*** a thua mil o gyfrolau eraill. Pris rhesymol am y casgliad cyfan.
**John Davies, 31 Heol Conwy, Caerdydd CF1 9NU. Ffôn: (01222) 640017.**